**Cyfarfod: Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Teams**
**Dyddiad: 23 Mehefin 2026**
2pm i 4.30pm

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Julie James (JJ)<br>Ms Caroline Wheeler (CW)<br>Mr Farhan Shakoor (FS) |
| **Yn bresennol yn y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Mr Ifan Charles, Prif Gwnstabl<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid (ND)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Steve Cadenne, Pennaeth Cyflenwi Gwasanaethau Adnoddau Dynol (SC)<br>Mr Marc Jones, Pennaeth TGCh (MJ)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Mr Paul Kamminga, Arbenigwr Sicrwydd Digidol a Seiber TIAA (eitem Rhif 6 ar yr agenda yn unig) (PK)<br>Mr Chris Bibby, TIAA (eitemau 5 b, c a d ar yr agenda yn unig) (CB)<br>Miss Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| **Ymddiheuriadau** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu<br>Mr Gary Phillips, Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid<br>Mr Mark McSweeney, Uwch-arolygydd Dros Dro<br>Ms Liz Reed, Rheolwr y Cylch Cynllunio a Sicrwydd<br>Ms Debby Jones, Rheolwr Gwybodaeth<br>Mr Richard Janas, Arolygydd<br>Ms Eleanor Ansell, Archwilio Cymru |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

1. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2026**

Ystyriwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2026 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd, gan aros am adolygiad o eiriad y camau gweithredu a sicrhau'r dilyniant a'r cysondeb cywir ar draws yr holl gofnodion.

## 2. Adolygiad o gamau gweithredu heb eu cwblhau

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Cham Gweithredu 17 a chytunwyd bod sicrwydd digonol wedi'i roi i'r pwyllgor i farcio'r cam gweithredu hwn fel un sydd wedi'i gwblhau.

Ystyriodd y pwyllgor Gam Gweithredu 19, lle cyflwynwyd cynnig i ymestyn yr adolygiad o’r broses o recriwtio a hyfforddi rheolwyr adnoddau dynol o fis Ebrill 2027 i fis Hydref 2027. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i drefnu ar gyfer trafodaeth bellach yn y pwyllgor ar ôl mis Hydref 2027. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys ym mlaengynllun gwaith y pwyllgor.

Cytunodd y pwyllgor fod angen sicrwydd pellach mewn perthynas â Cham Gweithredu 42. Cytunwyd y byddai'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn darparu trosolwg o'r trefniadau sydd ar waith a chopi o'r cofnodion diweddaraf gan y Fforwm Gwydnwch Lleol.

Roedd yr aelodau'n fodlon bod Cam Gweithredu 45 wedi'i ddiwygio, ac wedi hynny marciwyd y cam gweithredu fel un sydd wedi'i gwblhau.

## 3. Ystyried adroddiadau canlynol yr archwilwyr mewnol: adolygiadau 2025/2026 nad ydynt wedi’u cwblhau

### a. *Rheoli adnoddau dynol – absenoldeb arall*

Rhoddodd JM drosolwg i'r pwyllgor o'r adolygiad a gynhaliwyd. Nodwyd bod sicrwydd rhesymol wedi'i ddarparu, a nodwyd dau argymhelliad risg ganolig a dau argymhelliad risg is.

Cydnabuwyd bod yr adran adnoddau dynol wedi gwneud gwaith sylweddol i wella’r ffordd y mae’n rheoli absenoldeb arall, a oedd wedi cael sicrwydd cyfyngedig yn flaenorol. Canmolodd yr aelodau'r gwaith a wnaed.

### b. *Seilwaith TGCh*

Cyflwynodd JM ymhellach yr adroddiad archwilio ar gyfer y seilwaith TGCh, a oedd wedi cael sicrwydd sylweddol, a dim ond un argymhelliad risg isel oedd wedi cael ei gyhoeddi.

Cafwyd trafodaeth wedyn am fod aelodau wedi codi pryderon sylweddol ynghylch cwmpas a dyfnder cyfyngedig y profion, gan nodi bod yr archwiliad i bob golwg yn canolbwyntio'n bennaf ar bolisïau a gweithdrefnau yn hytrach nag effeithiolrwydd gweithredol. Creodd natur lefel uchel y cwmpas a'r diffyg profion manwl ansicrwydd ynghylch yr hyn a oedd wedi'i adolygu'n sylweddol.

Eglurodd CB fod yr adolygiad yn asesiad lefel uchel, a bod llawer o'r gwaith yn seiliedig ar lywodraethiant, dogfennaeth, ac adolygiad o brosesau. Hysbysodd CB yr aelodau fod gwaith profi rheolaethau gweithredol byw yn gyfyngedig, a bod rhai meysydd (e.e. rheolaethau wrth gefn ac adfer ar ôl trychineb) wedi'u gohirio i archwiliad yn y dyfodol.

Ni chymerodd y pwyllgor sicrwydd llawn o'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd a gofynnodd am adolygiad ac eglurhad pellach.

**Cam Gweithredu 49 – Cynnal adolygiad pellach mewn perthynas â'r archwiliad o seilwaith TGCh, gan gynnwys ystyried y Memorandwm Cynllunio Archwilio ac asesiad o sut yr ymgymerwyd ag ef yn erbyn ei gwmpas bwriadedig.**

**c.** *Rheoli newid ym maes TGCh*

Cyflwynwyd yr adroddiad archwilio i'r pwyllgor a dywedwyd wrtho fod sicrwydd rhesymol wedi'i ddarparu a bod pedwar argymhelliad risg ganolig a phedwar argymhelliad risg isel wedi cael eu gwneud.

Nododd yr aelodau eu pryderon pellach, fel y trafodwyd yn gynharach, sef y byddai angen eglurhad pellach i fodloni'r sicrwydd a ddarparwyd i gadarnhau'r meysydd a'r rheolaethau penodol a brofwyd fel rhan o'r adolygiad.

**Cam Gweithredu 50 – Rhoi eglurhad ynghylch y meysydd a'r rheolaethau penodol a brofwyd fel rhan o'r archwiliad rheoli newid ym maes TGCh.**

**d.** *Adolygiad TGCh o seiberddiogelwch o dan fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona (SyAP)*

Adolygodd a thrafododd y pwyllgor adolygiad TGCh o'r adroddiad archwilio seiberddiogelwch o dan fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona, lle nodwyd bod sicrwydd rhesymol wedi'i ddarparu.

Cododd yr aelodau bryderon sylweddol ynghylch cwmpas a pherthnasedd y profion, gan nodi bod yr archwiliad i bob golwg yn canolbwyntio ar adfer yn hytrach na rheolaethau seiberddiogelwch craidd. Roedd tystiolaeth gyfyngedig o waith i brofi rheolaethau seiberddiogelwch allweddol, megis prosesau cofnodi, monitro, a rheoli digwyddiadau, ac nad oedd y gwaith a wnaed yn cyd-fynd â disgwyliadau archwiliad seiberddiogelwch, gan achosi dryswch.

Nododd yr aelodau'r adroddiad ond ni wnaethant dderbyn sicrwydd llawn fel y'i cyflwynwyd, a gwnaethant ofyn am ddiwygiadau i sicrhau eglurder a chywirdeb y farn archwilio.

**Cam Gweithredu 51 – Bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r pwyllgor i egluro natur, cwmpas a graddfa'r adolygiad a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad TGCh yn ymwneud â seiberddiogelwch o dan fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona, a bod yr adroddiad archwilio yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny i fynegi cwmpas yr adolygiad a'r gwaith a wnaed yn llawn.**

Trafodwyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas ag adroddiadau archwilio, ond nododd yr aelodau eu pryderon nad oedd y tri adroddiad TGCh a ddarparwyd yn rhoi sicrwydd llawn. Nododd KC hefyd safon yr ymatebion i'r argymhellion gan y rheolwyr a gofynnodd a oedd gwall yn y broses. Cymerodd y CM gamau i gyfarfod â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i sicrhau bod trefniadau llywodraethu archwilio yn cael eu hystyried o fewn y trefniadau newydd.

**Cam Gweithredu 52 – Bod y Prif Gwnstabl yn cyfarfod â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod trefniadau llywodraethu archwilio a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn briodol o fewn cylch gwaith y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol sydd newydd ei sefydlu.**

**e.** *Adroddiad cryno ar sicrwydd rheolaethau mewnol*

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad cryno ar sicrwydd rheolaethau mewnol. Dywedodd JM fod cynnydd yn cael ei wneud a bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gynorthwyo. Parhaodd JM i roi gwybod bod un argymhelliad yn parhau i fod heb ei ystyried mewn perthynas ag enillion troseddau a atafaelwyd.

Nododd yr aelodau'r gwaith a wnaed ac roeddent yn cael sicrwydd gan y cynnydd a wnaed.

**f.** *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26*

Ystyriodd y pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26. Tynnodd JM sylw at ddeilliannau cyffredinol yr adolygiadau a gynhaliwyd yn 2025/26, gan nodi bod 12 sicrwydd sylweddol, chwe sicrwydd rhesymol a dau sicrwydd cyfyngedig. Roedd y nifer uchaf o argymhellion yn ymwneud â chydymffurfedd, a disgwylir hyn, ac mae hynny’n gyson â sefydliadau eraill.

Cytunwyd y gallai'r adroddiad blynyddol fod yn destun diwygiadau pellach yn dilyn y gwaith pellach y gofynnwyd amdano fel rhan o adroddiadau archwilio TGCh.

**g.** *Adroddiad ynghylch y gwaith dilynol y gofynnwyd amdano fel rhan o'r adolygiad o'r gyflogres*

Gofynnwyd am eglurder ynghylch y gwaith y gofynnwyd amdano fel rhan o'r adolygiad o'r gyflogres. Dilynodd trafodaeth ynghylch y camau priodol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn.

Cytunwyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan yr adran adnoddau dynol o fewn Heddlu Dyfed–Powys.

**h.** *Cynllun Archwilio Cymru 2026*

Cyflwynodd JB Gynllun Archwilio Cymru, gan amlinellu cwmpas, dull, amseriad, tîm a ffi archwiliad 2025/26.

Nodwyd y bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar roi sicrwydd bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg. Hysbysodd JB fod y tîm archwilio wedi aros yr un fath i raddau helaeth, a bu dim ond un newid o ran personél.

O ran amseru, hysbysodd JB y pwyllgor mai'r dyddiad cau statudol yw 30 Medi 2026 o hyd, a disgwylir i gyfrifon drafft a phapurau gwaith gael eu cyflwyno erbyn 30 Mehefin 2026, ac mae swyddogion wedi cadarnhau bod y rheini ar y trywydd iawn.

Cadarnhaodd ND fod y paratoadau'n mynd rhagddynt yn dda ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflwyno'r archwiliad erbyn 30 Mehefin. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod trefniadau sicrhau ansawdd gwell wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cwblhau datganiadau'n gynharach, adolygiad mewnol ehangach, a gwaith craffu annibynnol, gyda'r nod o wella ansawdd y cyfrifon a gyflwynir i'w harchwilio.

Nododd yr aelodau yr adroddiad. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

## 6. Cyflwyniad seiberddiogelwch – TIAA

Croesawyd PK i'r pwyllgor a rhoddodd ef drosolwg o'r Rhaglen Sicrwydd Gwybodaeth Diogelwch, fframwaith cydymffurfio cenedlaethol mewn perthynas â seiberddiogelwch sy'n seiliedig ar Fframwaith Seiberddiogelwch NIST, sy'n cynnwys 110 o reolaethau sy'n berthnasol ar draws plismona yn y DU.

Cyfeiriodd yr aelodau at bryderon a godwyd yn gynharach ynghylch adroddiadau archwilio TGCh yn ymwneud â chwmpas cyfyngedig y profion sampl a diffyg methodoleg glir yn seiliedig ar risg ar gyfer dewis rheolaethau.

Cadarnhaodd MJ, yn ogystal â gwaith archwilio mewnol, fod yr heddlu yn destun achrediad cenedlaethol, sy'n adolygu pob un o'r 110 o reolaethau. Nodwyd bod ymweliad gan asesydd allanol wedi'i drefnu, gan ddarparu sicrwydd ehangach a meincnodi yn erbyn heddluoedd eraill.

Nodwyd bod gweithgareddau cydymffurfio yn mynd rhagddynt ac yn gweithredu ar gylch gwelliant parhaus. Cytunodd y pwyllgor y bydd angen mwy o eglurder ynghylch perchnogaeth rheolaethau, blaenoriaethu risg, ac adrodd wrth i ddisgwyliadau o ran aeddfedrwydd gynyddu.

Nododd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf a gwnaethant gais i'r adrodd gael ei fireinio ymhellach i roi sicrwydd cliriach yn y dyfodol.

**7. Diweddariadau gan aelodau**

Rhoddodd CW wybod am bresenoldeb ym Mhwyllgor Dethol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a oedd yn canolbwyntio ar gyfiawnder ieuenctid, gan dynnu sylw at gyflwyno gallu dadansoddol gwell o fewn yr heddlu i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn droseddwyr. Cafodd hyn ei ystyried yn gadarnhaol gan aelodau.

Darparwyd diweddariadau hefyd gan CW o gyfarfodydd y byrddau Newid a Chynhyrchiant a'r Fflyd, gan nodi gwaith parhaus i fonitro costau tanwydd, defnydd cynlluniau disgownt, a phryderon parhaus ynghylch seilwaith cerbydau trydan cyfyngedig.

Rhoddodd JJ yr wybodaeth ddiweddaraf am bresenoldeb yn y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg a'r Bwrdd Strategol ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu. Rhoddodd JJ wybod bod gwelliannau wedi'u gwneud i leihau dyblygu rhwng fforymau llywodraethu a sicrhau llinellau adrodd priodol.

Nododd yr aelodau fod materion a godwyd yn flaenorol yn y Cyd-bwyllgor Archwilio, yn enwedig mewn perthynas ag adnoddau dynol, yn cael eu datblygu'n weithredol drwy'r byrddau llywodraethu perthnasol.

**8. Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion o dan unrhyw fater arall.

DIWEDD

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 28 Gorffennaf 2026**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w ddatblygu gan** | **Cynnydd** |
| A 49 | Cynnal adolygiad pellach mewn perthynas â'r archwiliad o seilwaith TGCh, gan gynnwys ystyried y Memorandwm Cynllunio Archwilio ac asesiad o sut yr ymgymerwyd ag ef yn erbyn ei gwmpas bwriadedig. | TIAA | |
| A 50 | Rhoi eglurhad ar y meysydd a'r rheolaethau penodol a brofwyd fel rhan o'r archwiliad rheoli newid ym maes TGCh. | TIAA | |
| A 51 | Bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r pwyllgor i egluro natur, cwmpas a graddfa'r adolygiad a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad TGCh yn ymwneud â seiberddiogelwch o dan fframwaith asesu diogelwch ym maes plismona, a bod yr adroddiad archwilio yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny i fynegi cwmpas yr adolygiad a'r gwaith a wnaed yn llawn. | TIAA | |
| A 52 | Bod y Prif Gwnstabl yn cyfarfod â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod trefniadau llywodraethu archwilio a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn briodol o fewn cylch | CM | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwaith y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Strategol sydd newydd ei sefydlu. | | |